DEDDF RHEOLI TRAFNIDIAETH FFYRDD 1984
ADRAN 14(1) FEL Y'I DIWYGIWYD GAN DDEDDF TRAFNIDIAETH FFYRDD (CYFYNGIADAU DROS DRO) 1991

GORCHYMYN CYNGOR GWYNEDD
(CAU LLWYBR TROED CYHOEDDUS RHIF 37 YNG NGHYMUNED LLANNOR)
(GWAHARDDIAD DEFNYDD DROS DRO) 2023

RHODDIR DRWY HYN RYBUDD fod y Gorchymyn a wnaethpwyd gan Cyngor Gwynedd ar y 17eg o Fai, 2023 ac a ddaeth yn weithredol ar yr 17eg o Fai, 2023 am gyfnod na fyddai hwy na chwe mis, sydd yn gwahardd unrhyw berson rhag mynd mewn unrhyw gyfeiriad ar hyd y darn hwnnw o Lwybr Troed Cyhoeddus Rhif 37 yng Nghymuned Llannor o bwynt A (Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans SH 43971, 36927) ar gyrion Parc Gwyliau Hafan y Môr, o bwynt sydd yn gorwedd oddeutu 250 metr o blwyf Afonwen, gan deithio mewn cyfeiriad de orllewinol am bellter o oddeutu 360 metr hyd at ddiwedd y llwybr troed ym mhwynt D (Cyf. Grid AO SH 43703, 36566) wedi ei barhau mewn grym gyda chymeradwyaeth Llywodraeth Cymru hyd at a chan gynnwys y 18fed o Ebrill, 2024.

Mae angen y Gorchymyn ar sail iechyd a diogelwch i'r cyhoedd yn ystod gwaith adeiladu lan y môr a muriau arfordirol newydd.

Mae'r llwybr osgoi yn dechrau ym mhwynt A (Cyfeirnod Grid OS SH 43971, 36927) ar ei gyffordd gyda Llwybr Troed Cyhoeddus Rhif 37, Llannor gan deithio mewn cyfeiriad gogledd orllewinol am bellter o oddeutu 282 metr hyd at bwynt B (Cyfeirnod Grid OS SH 43723 36998). O bwynt B, gan deithio am bellter o oddeutu 352 metr mewn cyfeiriad de orllewinol tuag at bwynt C (Cyfeirnod Grid OS SH 43607 36682). O bwynt C, gan deithio am oddeutu 149 metr mewn cyfeiriad deheuol tuag at bwynt D (Cyfeirnod Grid OS SH 43703, 36566). Bydd llwybr amgen mewn lle er mwyn caniatáu mynediad i'r cyhoedd i'r Llwybr Arfordir.

DYDDIEDIG: 20fed o Fedi, 2023

……
Iwan G. D. Evans LLB(Anrh) PGCert Dip.L.G.
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol

Swyddfa'r Cyngor,
Stryd y Jêl,
CAERNARFON,
Gwynedd.

Am fwy o wybodaeth ynglŷn â'r cau ffoniwch yr Ymgeisydd – Gwasanaeth Cefn Gwlad a Mynediad ar (01766) 771000.

Am fwy o wybodaeth ynglŷn â'r Gorchymyn ffoniwch y Gwasanaeth Trafnidiaeth a Chefn Gwlad ar (01286) 679437. (CAT-4196 EMH)

ROAD TRAFFIC REGULATION ACT 1984
SECTION 14(1) AS AMENDED BY THE ROAD TRAFFIC (TEMPORARY RESTRICTIONS) ACT 1991

THE GWYNEDD COUNCIL
(CLOSURE OF PUBLIC FOOTPATH NO. 37 IN THE COMMUNITY OF LLANNOR)
(TEMPORARY PROHIBITION OF USE) ORDER 2023

NOTICE IS HEREBY GIVEN that the Order made by Gwynedd Council on the 17th of May, 2023 and which came into operation on the 17th of May, 2023 for a period not exceeding six months, the effect of which is to prohibit any person from proceeding in either direction along that length of Public Footpath No.37 in the Community of Llannor from point A (Ordnance Survey Grid Reference SH 43971, 36927) on the outskirts of Hafan y Môr Holiday Park, from a point lying approximately 250 metres from Afonwen community, travelling in a south westerly direction for approximately 360 metres to the end of the footpath at point D (OS Grid Ref. SH 43703, 36566) has been continued in force with the approval of the Welsh Government until and including the 18th of April, 2024.

The Order is necessary on health and safety grounds to the public during the construction of new beaches and coastal protection boundaries.

The alternative route starts at point A (OS Grid Ref. SH 43971, 36927) at its junction with Public Footpath No. 37, Llannor, travelling in a north westerly direction for approximately 282 meters up to point B (OS Grid ref SH 43723 36998). From point B, travelling for approximately 352 meters in a south westerly direction towards point C (OS Grid Ref. SH 43607 36682). From point C, travelling for approximately 149 meters in a southerly direction towards point D (OS Grid Ref. SH 43703, 36566). The alternative route will be set up to allow constant access to the Coastal Path.

DATED: 20th of September, 2023



……

Iwan G. D. Evans LLB(Hons) PGCert Dip.L.G.
Head of Legal Services

Council Offices,
Shirehall Street,
CAERNARFON,
Gwynedd.

For further information regarding the closure please telephone the Applicant - Gwasanaeth Cefn Gwlad a Mynediad ar (01766) 771000.

For further information regarding the Order please telephone the Transportation and Countryside Service on (01286) 679437. (CAT-4196 EMH)



GWAITH ADEILADU LAN Y MOR NEWYDD AC AMDDIFFYN YR ARFORDIR / CONSTRUCTION OF NEW BEACHES AND COASTAL PROTECTION
Gwaharddiad Defnydd Dros Dro, Llwybr Troed Rhif 37, Cymuned Llannor
Temporary Prohibition of Use, Public Footpath No.37, Community of Llannor